**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

5 Rhagfyr 2019

Annwyl Dafydd,

**Y wybodaeth ddiweddaraf am bortffolio'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol**

Hoffwn rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n ymwneud â'ch portffolio ag aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, a hynny cyn y sesiwn ym mis Ionawr pan fyddwn yn craffu ar y gyllideb.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth ddiweddaraf ataf am y materion a ganlyn.

**Cymru Greadigol**

Rwy'n deall bod y Cyfarwyddwr wedi'i benodi. A wnewch chi anfon rhagor o wybodaeth ataf am yr ymgeisydd llwyddiannus? A wnewch chi hefyd rannu unrhyw wybodaeth sydd gennych ynghylch penodi'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd?

A wnewch chi ddweud pam y cafodd y lansiad a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Tachwedd ei ohirio a beth yw dyddiad newydd y lansiad?

**Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru**

Hoffwn fynd ar drywydd y cwestiwn a ofynnwyd i'r Prif Weinidog ar 25 Hydref. A wnewch chi anfon y wybodaeth ddiweddaraf ataf am y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu cynigion ar gyfer Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru, ac am waith y Grŵp Llywio?

Pryd ydych chi'n rhagweld y byddwch yn gallu gwneud penderfyniad am leoliadau addas ar gyfer yr oriel?

**Buddsoddi mewn sgiliau yn y diwydiant ffilm yng Nghymru a'r wybodaeth ddiweddaraf am reoli Pinewood Studios**

Roedd ein hadroddiad am y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai, yn ymrwymo i ddilyn trywydd ein hargymhellion. Roedd hyn yn cynnwys argymhellion am broffidioldeb Pinewood Studios yng Ngwynllŵg.

A wnewch chi anfon gwybodaeth ataf ynghylch y cynnydd a wnaed o ran dod o hyd i gwmni rheoli parhaol ar gyfer stiwdios Pinewood yng Ngwynllŵg? A oes gan Lywodraeth Cymru amserlen ar gyfer dod o hyd i reolwyr newydd i gymryd lle Wolf Studios Wales?

Caiff datblygu sgiliau yn nodi'n aml fel y ffactor fwyaf sy'n cyfyngu ar dwf y diwydiant sgrin yng Nghymru, fel y mae ein hadroddiad yn ei grybwyll. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant yn y maes hwn.

Deallaf fod Wolf Studios Wales wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru i wneud cais am arian cyfatebol ar gyfer ei fuddsoddiad ym maes datblygu sgiliau, ond deallaf nad oedd y cwmni'n llwyddiannus.

A wnewch chi anfon rhagor o wybodaeth ataf am y mater hwn? Mae'n amlwg bod y cwmni'n teimlo'n rhwystredig ynghylch y ffaith nad oedd modd i Lywodraeth Cymru fuddsoddi ym maes datblygu sgiliau yn dilyn yr ymateb cadarnhaol iawn a roesoch i'n hadroddiad.

**Arolwg o leoliadau cerddoriaeth yng Nghymru**

Deallaf fod Landsker Business Solutions wedi gwneud arolwg o leoliadau cerddoriaeth fyw yng Nghymru. Yn ystod ein hymchwiliad i gerddoriaeth fyw, rydym wedi clywed tystiolaeth gan ein rhanddeiliaid am y ffaith nad oedd llawer ohonynt yn ymwybodol o'r arolwg hwnnw. Rydym hefyd wedi cael

cwyn bod rhai lleoliadau wedi cael e-bost dilynol ar y mater dan sylw, ond heb gael e-bost cychwynnol yn gofyn am wybodaeth.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon gwybodaeth at y Pwyllgor am y materion a ganlyn:

- Nifer y lleoliadau y cysylltwyd â hwy;
- Enwau'r sawl y cysylltwyd â hwy;
- Nifer y lleoliadau a ymatebodd;
- Pryd y cynhaliwyd yr ymarfer mapio; a
- Sut y cyhoeddwyd gwybodaeth am yr ymarfer hwn.

A fyddai modd i chi ymateb i'r llythyr hwn erbyn **16 Rhagfyr,** a hynny er mwyn imi gael cyfle i friffio ein Haelodau cyn y sesiwn ym mis Ionawr?

Yn gywir,

Bethan Sayed.

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/DET/5884/19

Bethan Sayed AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

06 Ionawr 2020

**Y PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHYFATHREBU – Y DIWEDDARAF AM BORTFFOLIO Y CELFYDDYDAU A'R DIWYDIANNAU CREADIGOL**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Rhagfyr yn gofyn am y newyddion diweddaraf am y portffolio Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol cyn y sesiwn craffu ar y gyllideb ym mis Ionawr 2020.

Rwyf am ateb eich cwestiynau yn y drefn y gwnaethoch eu codi yn eich llythyr.

**Cymru Greadigol**

Cafodd Gerwyn Evans ei benodi yn Ddirprwy Gyfarwydwr, Cymru Greadigol yn dilyn ymarfer recriwtio eang ar draws y gwasanaeth sifil, i arwain tîm Cymru Greadigol. Daw Gerwyn, cyn Bennaeth Datblygu Twrisitaeth Llywodraeth Cymru, â dros 18 mlynedd o brofiad o ddatblygu polisïau a chyflawni strategaeth.

Y bwriad yw rhoi cyhoeddusrwydd a chwilio yn ffurfiol am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd a nifer fechan o aelodau ar gyfer Bwrdd Cymru Greadigol i gyd-fynd â'r lansiad. Bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd allanol, nifer fechan o aelodau allanol, Cyfarwyddwr, Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru a Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymru Greadigol, Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn chwilio am ymgeiswyr ar gyfer Cadeirydd ac Aelodau sydd â phrofiad o'r diwydiannau creadigol masnachol yng Nghymru, gyda gwybodaeth am y problemau sy'n wynebu'r diwydiant a syniadau sut i ddatblygu'r sector. Wrth benodi unigolion i'r Bwrdd, byddwn yn ceisio sicrhau aelodaeth eang ac amrywiol, sy'n cynrychioli'r sector yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cafodd lansiad Cymru Greadigol, oedd yn wreiddiol wedi'i fwriadu ar gyfer Tachwedd 2019, ei ohirio o ganlyniad i'r etholiad. Mae hyn yn unol â'r hyn wnaeth Llywodraeth Cymru gyda cyhoeddiadau pwysig eraill, gan gynnwys y Strategaeth Ryngwladol, sydd hefyd wedi'i gohirio tan y Flwyddyn Newydd. Y bwriad bellach yw lansio Cymru Greadigol am 6:15pm ar 29 Ionawr 2020 yn seremoni Gwobrau Sgiliau Creadigol a Diwylliannol Cymru ar Gampws Canol y Ddinas Coleg Caerdydd a'r Fro, Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5FE. Hoffwn yn fawr ichi fod yn bresennol fel Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, ac felly rwy'n ymestyn gwahoddiad ffurfiol ichi fod yn bresennol yn y lansiad.

**Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru**

Mae Grŵp Llywio Celf Gyfoes bellach yn datblygu cynllun busnes fydd yn rhoi amlinelliad ichi o fuddsoddiadau i ddarparu celf gyfoes ledled Cymru. Fel y gwyddoch, roedd hwn yn argymhelliad o bwys yn yr adroddiad dichonoldeb a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-08/national-contemporary-art-gallery-wales-preliminary-feasibility-study-and-options-appraisal.pdf. Bydd yn sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gweld ein casgliadau celf gyfoes cenedlaethol a bydd yn cynnwys buddsoddiad yn ein rhwydwaith rhagorol o orielau celf ac amgueddfeydd. Bydd hyn yn cynnig dull arloesol a chynhwysfawr o arddangos celf gyfoes yng Nghymru. Byddaf yn rhoi rhagor o newyddion yn fuan, gan gynnwys newyddion am gyllid i fynd ymlaen i gam nesaf y gwaith hwn.

**Buddsoddi mewn sgiliau yn y diwydiant ffilmiau yng Nghymru a'r newyddion diweddaraf am reoli Stiwdio Pinewood**

Ar ddiwedd mis Hydref, cyhoeddwyd y byddai y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood yn Gwynllŵg yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried opsiynau ar gyfer y safle o fis Ebrill ymlaen a byddaf yn rhoi rhagor o newyddion i'r Pwyllgor pan fydd penderfyniad wedi'i wneud.

Ers mis Ebrill 2019, bu'r stiwdio yn llawn, gyda Bad Wolf yn brif denant yn ogystal â chwmnïau cyfryngau llai. Felly mae'r stiwdio i wneud elw gweithredol o oddeutu £200 mil yn ystod y flwyddyn ariannol hon (gallai'r swm hon amrywio yn dilyn addasu costau gweithredol megis cyfleustodau ac ôl-filio ar gyfer rhai taliadau).

Rydym yn cydnabod, er mwyn cynnal a hyrwyddo rhagor o dwf yn y diwydiant sgrîn yng Nghymru, bod yn rhaid inni flaenoriaethu'r cymorth ar gyfer datblygu sgiliau o fewn y diwydiant a gwella'r llwybr gyrfa ar gyfer unigolion dawnus. Prif gonglfaen gweithgareddau Cymru Greadigol fydd cefnogi a datblygu sgiliau, gan gynnwys sefydlu ffyrdd o ddod i mewn i'r sector a llwybr ar gyfer doniau y dyfodol.

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid a'r prif randdeiliaid i ddatblygu amrywiol gamau, i fuddsoddi i ddatblygu sgiliau a sicrhau dyfodol bywiog a chynaliadwy i'r diwydiant yng Nghymru. Rydym yn sefydlu grŵp rhanddeiliaid sgiliau. Bydd hwn yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 15 Ionawr 2020, ac yn rhoi'r cyfle i'r diwydiant lywio ein strategaeth sgiliau yn y dyfodol.

Ni chafwyd cais ffurfiol am gyllid ar gyfer sgiliau gan Wolf Studios Wales. Rydym yn trafod gyda Cynghrair Sgrîn Cymru, a nifer o randdeiliaid eraill, ar fentrau i fynd i'r afael â phroblemau sgiliau yn y tymor byr, canolig a hir ar draws sector y diwydiannau creadigol. Ein bwriad yw ystyried cynigion mewn dull holistaidd, i sicrhau bod cymaint â phosibl o arian ar gael ac i sicrhau bod prosiectau yn ategu ac yn ychwanegu at y ddarpariaeth bresennol yn fewnol ac yn allanol. Ein nod yw cefnogi prosiectau syn bodloni anghenion ar draws amrywiol sectorau, gan gynnwys cerddoriaeth a'r sector digidol creadigol.

Bydd y cyllid yn cael ei dargedu at fylchau yn y cymorth sydd ar gael, gyda'r nod o sicrhau'r manteision gorau i'r diwydiannau creadigol yn gyffredinol yng Nghymru, gan weithio o fewn a thu allan i'r Llywodraeth i lunio gweithgarwch yn unol ag anghenion y sector.

**Arolwg o Leoliadau Cerddoriaeth yng Nghymru**

Cafwyd yr ymateb canlynol i'r cwestiynau hyn gan y Pwyllgor ar ddechrau Rhagfyr 2019:

*Cafodd yr astudiaeth ymchwil i fapio lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad yng Nghymru ei gomisiynu'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019. Pwrpas yr astudiaeth oedd rhoi tystiolaeth gywir i Lywodraeth Cymru o'r problemau cymhleth sydd gan leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad, er mwyn i Lywodraeth Cymru (Cymru Greadigol) ddatblygu mentrau priodol i'w cefnogi.*

*Yn dilyn proses gaffael gyhoeddus ar gyfer tendr agored a hysbysebwyd drwy GwerthwchiGymru, cafodd yr astudiaeth ymchwil i fapio lleoliadau cerddoriaeth yng Nghymru ei roi i Landsker Business Solutions ym mis Mehefin 2019. Dechreuodd Landsker Business Solutions ar y gwaith ymchwil yn ffurfiol dros gyfnod yr haf. Maent yn parhau i drafod gyda lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad er mwyn casglu y data sydd ei angen i gynhyrchu eu hadroddiad terfynol a'r map cysylltiedig o leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad yng Nghymru. Gan bod y gwaith hwn yn parhau nid oes modd inni eto gadarnhau cyfanswm y lleoliadau y cysylltwyd â hwy a phwy ydynt.*

*Mae disgwyl i'r ymarfer mapio (casglu data) ddod i ben erbyn diwedd y flwyddyn.*

*Cyhoeddwyd [datganiad i'r wasg] i roi cyhoeddusrwydd i'r astudiaeth ymchwil ar 27 Gorffennaf 2019. Cafodd cyhoeddusrwydd ychwanegol ynghylch yr astudiaeth ei rannu drwy sianeli perthnasol cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru a'n partneriaid. Cafodd y prif randdeiliaid o fewn y diwydiant cerddoriaeth eu hysbysu hefyd, er mwyn eu cyflwyno i Landsker Business Solutions i helpu gyda'r astudiaeth ymchwil.*

*Wedi darparu yr adroddiad terfynol, bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu i gyfarfod cynrychiolrwyr yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth i drafod canfyddiadau'r adroddiad. Bydd y Gweinidog yna'n cael cyngor ynghylch yr adroddiad ac unrhyw argymhellion fydd o fewn iddo.*

Mae'r ymarfer mapio wedi ei gwblhau bellach, a bydd swyddogion yn edrych ar yr adroddiad. Rydym yn cydnabod y pryderon ynghylch y ffaith nad yw'r ymchwilwyr wedi cysylltu â rhai perchnogion lleoliadau. Mae cefnogi a datblygu y diwydiant cerddoriaeth, gan gynnwys lleoliadau ar lawr gwlad, yn brif flaenoriaeth Cymru Greadigol, a bydd y gwaith ymchwil hwn yn elfen bwysig o fewn ein sylfaen dystiolaeth. Byddwn yn ystyried pa mor gadarn a chyflawn yw'r gwaith ymchwil fel rhan o'n hadolygiad. Byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar ein canfyddiadau, ac unrhyw gamau y byddwn yn eu cymryd os oes unrhyw broblem gyda'r ffordd y cafodd yr ymchwil ei gynnal.

Gobeithio bod yr ymateb hwn o fudd ichi.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth